**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

22 Mehefin 2023

**Capasiti'r gwasanaeth sifil**

Annwyl Mark,

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal cyfres o ddarnau o waith sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon. Mae pob darn o'r gwaith hwnnw wedi tynnu sylw at bryderon am gapasiti'r gwasanaeth sifil yn yr adran benodol honno yn Llywodraeth Cymru, fel y nodir isod.

## Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Credwn y gallai capasiti'r gwasanaeth sifil yn adran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn ei gwneud yn heriol i'r Gweinidog a'i dirprwyon ddarparu'r manylion ac ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig sydd eu hangen arnom i gynnal gwaith craffu effeithiol o fewn amserlenni tynn y Gyllideb. Nodwn ein pryderon yn fanylach yn ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 25 Mai 2023.

## Ymchwiliad i ddiwygio radical o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal." Fodd bynnag, gwnaethom lansio ein hymchwiliad ym mis Gorffennaf 2022 oherwydd, ar yr adeg honno yn y Senedd, ni chafwyd ond ychydig iawn o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch beth oedd ystyried diwygio radical yn ei olygu yn ymarferol.

Yn ystod ein hymchwiliad, gwelsom nad oedd prinder ymrwymiad i ddiwygio radical ar ran y Dirprwy Weinidog nac yn wir ar ran y Prif Weinidog (sydd wedi gwneud ymrwymiadau personol i leihau nifer y plant mewn gofal). Canfuom hefyd fod cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc eu hunain ar gyfer diwygio radical, a bod llawer o syniadau uchelgeisiol ac argyhoeddiadol sy'n

seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sut y gallai'r diwygio radical hwnnw edrych. Roedd y syniadau hynny'n cyfrannu i'n hadroddiad, sy'n nodi cynigion ar gyfer 12 o ddiwygiadau radical a chyfres o welliannau posibl eraill i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r hyn a glywsom gan rai rhanddeiliaid yn ystod ein hymchwiliad yn awgrymu nad yw cyflymder datblygu a gweithredu polisi ar lefel y gwasanaeth sifil yn cymharu ag ymrwymiad gwleidyddol i ddiwygio radical ar lefel weinidogol. Mae rhai o'r enghreifftiau polisi y cawsom dystiolaeth yn eu cylch wedi awgrymu bod hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd capasiti annigonol. Gan edrych tua'r dyfodol, mae gennym bryder y gallai diffyg capasiti yn y gwasanaeth sifil lesteirio parodrwydd a gallu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'n cynigion.

## Ein hymholiadau ynghylch creu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant

Ar 29 Ionawr, ysgrifennais i a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Cawsom ymateb ar 5 Ebrill, ac fe'i trafodwyd gennym ar 3 Mai.

Testun pryder i ni yw'r ffaith i'r Dirprwy Weinidog ddweud yn yr ymateb hwnnw fod toreth yr ohebiaeth yn achosi oedi i'w hamseroedd ymateb. Fel y gwyddoch, yr arfer cytunedig yw i Lywodraeth Cymru ymateb i'n gohebiaeth o fewn 6 wythnos. Mae ymatebion amserol i geisiadau Pwyllgorau am wybodaeth yn hanfodol i ni allu cyflawni ein gwaith craffu yn effeithiol. Rydym yn cydnabod bod ymateb i ohebiaeth y Pwyllgor yn cymryd amser ac nad yw ond yn rhan fechan o ddyletswyddau swyddogion Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydym yn pryderu y gallai cyfyngiadau ar gapasiti'r gwasanaeth sifil effeithio'n negyddol ar ein gallu i graffu'n briodol ar adrannau'r Llywodraeth.

Deallaf fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn craffu ar gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru, a bod ystyried capasiti gweithlu Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith craffu hwn. Rwy'n mawr obeithio y gall y wybodaeth fwydo i mewn i'r broses graffu honno, a'i bod yn eich cefnogi yn y gwaith pwysig hwnnw.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor. Fel arall, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm Pwyllgor am unrhyw gasgliadau neu argymhellion y byddwch yn dod iddynt sy'n ymwneud â'r materion a godwyd yn y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.